



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

Proses Recriwtio Diffoddwyr
Tân Dyletswydd Gyflawn
2022

Recriwtio Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn 2022

Cwestiynau Cyffredin (CC)

Pryd alla i wneud cais i fod yn Ddiffoddwr Tân Amser Cyflawn (Llawm Amser)?

Mae GTADC fel arfer yn recriwtio **Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn** unwaith y flwyddyn. Ar gyfer 2022, cewch wneud cais rhwng 1yh ar y 5ed o Ionawr a 1yh ar y 19eg o Ionawr 2022. Gan fod hon yn broses gystadleuol iawn, yn anffodus ni allwn dderbyn ceisiadau y tu hwnt i'r cyfnod hwn. Rydym yn recriwtio ar gyfer **Diffoddwyr Tân Ar Alwad** mewn gorsafoedd dethol drwy'r flwyddyn. Ewch i'n [tudalen we Ar Alwad](#).

Beth yw'r oedran lleiaf ac uchaf i wneud cais?

Roedd angen i ymgeiswyr fod o leiaf 17 blwydd a hanner oed adeg gwneud cais a 18 oed cyn mynychu'r cwrs hyfforddi os ydynt yn llwyddiannus. Nid oes terfyn oedran uchaf, cyn belled â'ch bod yn ffit ac yn iach ac yn gallu pasio'r holl brofion.

Pa gymwysterau sydd eu hangen i wneud cais?

Nid oes angen unrhyw gymwysterau penodol ar gyfer gwneud cais. Fodd bynnag, i lwyddo yn y broses ddethol bydd angen i chi basio profion gallu, felly bydd angen sgiliau llythrennedd, rhifedd a datrys problemau sy'n cyfateb i Sgiliau Hanfodol Lefel 2 neu uwch.

Beth yw camau'r broses?

1. Cofrestru a chwblhau ffurflen gais ar-lein a chwestiynau sy'n seiliedig ar gymhwysedd
2. GTADC yn llunio rhestr fer o gwestiynau sy'n seiliedig ar gymhwysedd
3. Cwblhau prawf Gallu (rhifedd, llythrennedd a datrys problemau)
4. Aseidiadau corfforol ac ymarferol (gan gynnwys prawf blip)
5. Cyfweliad

Bydd angen i'r sawl sy'n llwyddo yn y cam cyfweld wedyn gwblhau gwiriadau cyn cyflogi boddhaol gan gynnwys archwiliad meddygol llawn, gwiriad DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) a geirdaon.

Gellir gweld y broses lawn a'r graddfeydd amser ar dudalen we SDdG.



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

Proses Recriwtio Diffoddwyr
Tân Dyletswydd Gyflawn
2022

Oes rhaid i mi fod yn Ddinesydd Prydeinig i wneud cais?

Gall pobl sy'n perthyn i unrhyw genedligrwydd wneud cais, ar yr amod bod hawl barhaol gyda chi i aros heb gyfyngiad yn y DU. Bydd gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o'ch hawl i weithio yn y DU yn ystod y broses recriwtio.

Oes rhaid i mi fyw yn Ne Cymru?

Er mwyn bod yn Ddiffoddwyr Tân Ar-Alwad bydd angen i chi ymateb i'r orsaf o fewn 5 munud.

Os ydych chi'n Ddiffoddwr Tân Amser Cyflawn, does dim rhaid eich bod chi'n byw yn Ne Cymru, fodd bynnag bydd hi'n ofynnol i chi gymudo i'r Orsaf ar gyfer yr holl sifftiau rhestr dyletswydd neu adleoli erbyn bydd y cyrsiau'n cael eu dyrannu.

I fod yn Ddiffoddwr Tân Ar Alwad bydd angen i chi ymateb i'r orsaf o fewn 5 munud.

Pryd bydda i'n cael cyfle i fynychu cwrs ar ôl y cyfweliad?

Ar ôl llwyddo yn y cam cyfweld rhoddir enwau'r holl ymgeiswyr llwyddiannus ar restr aros. Penderfynir dyrannu ar gyfer cyrsiau o blith y sawl sydd ar y rhestr aros honno, gan ddibynnu ar ofynion y Gwasanaeth a gallai ddigwydd na fydd dim cwrs ar eich cyfer am 12 – 18 mis. Sylwch ein bod ni'n cysylltu'n gyson gyda'r holl ymgeiswyr ar y rhestr aros a chyn belled ag y bydd yr holl wiriadau cyngyflogi'n llwyddiannus, byddwch chi'n sicr o gael swydd gyda ni.

Gaf i ddewis pa Orsaf i weithio ynddi?

Na chewch, gan fod diffoddwyr tân yn cael eu lleoli mewn Gorsafoedd lle mae swyddi gwag. Efallai y bydd hefyd yn ofynnol i ddiffoddwyr tân drosglwyddo a gweithio mewn gorsafoedd eraill os bydd angen.

Gofynion ffitrwydd:

Ydy'r safonau recriwtio yn wahanol i ddynion o gymharu â menywod?

Nac ydynt. Mae'r asesiadau a'r safonau y mae angen eu bodloni yn yr un fodd i bawb.



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

Proses Recriwtio Diffoddwyr
Tân Dyletswydd Gyflawn
2022

Pa lefel ffitrwydd fydd yn ofynnol?

Bydd angen i chi fod yn eithaf ffit a chynnal eich lefelau ffitrwydd gydol eich gyrfa fel Diffoddwr Tân. Bydd gofyn i chi gael gwerthusiad ffitrwydd i bennu eich capasiti aerobig. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [ein tudalen SDdG](#).

Gofynion Meddygol:

Alla i wneud cais os ydw i'n gwisgo sbectol?

Bydd gofyn i chi gael ffurflen Safonau Golwg wedi'i llenwi gan optometrydd cymwys. Y prif ofynion o ran golwg yw:

- Isafswm aciwtedd gweledol, llygad dde 6.9, chwith llygad 6.9
- Gallu gweld lliwiau'n dda (bydd gofyn i chi gwblhau asesiadau golwg lliw os oes nam ar eich golwg lliw gyda chi)
- Os ydych chi wedi cael llawdriniaeth llygaid Laser, ni fydd ceisiadau'n cael eu hystyried am o leiaf 12 mis ar ôl dyddiad y llawdriniaeth

Rwy'n ddyslecsig, oes cymorth ar gael i fi?

Oes. Gan fod dyslecsia yn **gyflwr gydol oes** gydag effaith sylweddol ar fywyd bob dydd unigolyn, mae e'n cwrdd â meini prawf anabledd sy'n cael ei gynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2021.

Os byddwch chi'n llwyddo i gyrraedd y cam profion gallu ysgrifenedig, pan ddowch chi at y profion ysgrifenedig a amserir gofynnir i chi a oes gennych chi unrhyw anghenion cymorth ychwanegol a dylech ateb "oes". Yna gofynnir i chi gysylltu â ni'n uniongyrchol er mwyn i ni allu trafod unrhyw addasiadau rhesymol, megis cael amser ychwanegol wrth sefyll yr asesiadau. Bydd gofyn i chi ddarparu tystiolaeth am y dyslecsia gan weithiwr meddygol proffesiynol.

Mae gen i anabledd, gaf i wneud cais o hyd?

Cewch, mae addasrwydd meddygol yn cael ei bennu yn ôl asesiad unigol a fydd yn golygu ystyried yn briodol unrhyw farn neu adroddiadau meddygol y dymunwch eu cyflwyno.

Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i gyflawni ein dyletswyddau o ran materion cydraddoldeb fel y nodir yn y ddeddfwriaeth bresennol, yn benodol Deddf Cydraddoldeb 2010.



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

Proses Recriwtio Diffoddwyr Tân Dyletswydd Gyflawn 2022

Nid yw'n bosib i Wasanaethau Tân ac Achub wneud unrhyw addasiadau i'r gofynion rôl hanfodol, fel y nodir yn adran Manyleb Person a'r Disgrifiad Swydd nac ychwaith i Safonau Ffitrwydd a bennir yn genedlaethol. Mae'r gofynion a'r safonau hyn wedi'u pennu i sicrhau bod unigolion yn ddiogel yn y gwaith, er mwyn diogelwch eu hunain ac eraill.

Os oes anabledd gyda chi a'ch bod yn teimlo eich bod yn gallu bodloni'r gofynion rôl hanfodol fel y nodir yn y Disgrifiad Swydd a Manyleb y Person, ond bod y broses ddethol / asesu yn eich atal rhag dangos eich galluoedd yn llawn, bydd modd ystyried gwneud addasiadau rhesymol i'r broses. Er mwyn sicrhau bod y cymorth angenrheidiol ar gael yn hwylus, mae'n ofynnol i chi ddwyn eich anghenion penodol i sylw'r ganolfan brofi briodol ymlaen llaw.

Mae cyflwr meddygol neu gyfyngiad swyddogaethol sydd, er gwaethaf unrhyw addasiadau rhesymol, yn arwain at risg alwedigaethol sylweddol uwch o'r canlynol yn annerbyniol:

- Cwmp sydyn neu analluogrwydd sydyn
- Amhariad ar farn neu newid ymwybyddiaeth
- Anaf corfforol neu seicolegol sylweddol/salwch
- Unrhyw effaith arall a fyddai'n peri risg sylweddol i iechyd a diogelwch i chi eich hun neu eraill

Gaf i wneud cais os oes cofnod troseddol gyda fi?

Ni fydd cael cofnod troseddol o reidrwydd yn eich atal rhag dod yn Ddiffoddwr Tân. Mae'n ofynnol i chi ddatgan unrhyw euogfarnau am droseddau anhreuliedig yn unol â Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Mae hyn yn cynnwys unrhyw droseddau yr ymdrinnir â hwy gan lys barn, gweithdrefnau disgyblu Gwasanaethau EM ac unrhyw droseddau gyrru. I gael gwybod a yw collfarn anhreuliedig, ewch i www.disclosurecalculator.org.uk

Cyn cynnig cyflogaeth, bydd dogfen ddatgelu gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cael ei chasglu. Os tynnir sylw at gollfarn nad ydych wedi datgan ar unrhyw adeg, tynnir eich cais ei dynnu'n ôl o'r broses recriwtio.



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

Proses Recriwtio Diffoddwyr
Tân Dyletswydd Gyflawn
2022

Safonau ymddangosiad / Daliadau crefyddol:

Mae barf gyda fi am resymau crefyddol, a fydd yn rhaid imi ei heillio i ddod yn Ddiffoddwr Tân?

Mae gwallt wyneb (barf a blew ar ochr wyneb) yn effeithio ar y sêl yr Offer Amddiffyn Anadlu (OAA) gan gynnwys Offer Anadlu (OA) a masgiau wyneb, rhaid i'r holl staff gweithredol eillio'n lân gan na ellir gwarantu sêl wyneb effeithiol fel arall.

Mae gen i sawl tatŵ, a fydd hyn yn broblem?

Mae tatŵs yn dderbyniol ar yr amod nad ydynt yn dramgwyddus. Mae tatŵs yn annerbyniol os ydynt yn anghwrtais, yn aflan, yn hiliol, yn rhywiaethol, yn homoffobig neu'n dreisgar.

Mae gen i sawl addurn tyllu corff, a fydd hyn yn broblem?

Am resymau iechyd a diogelwch, rhaid tynnu'r holl dlysau tyllu'r corff cyn dechrau dyletswyddau gweithredol.

Mae gofynion fy ffydd yn golygu bod rhaid i mi ddyrannu i adegau penodol o'r dydd ar gyfer gweddi, a fydd hyn yn bosib?

Oherwydd natur y rôl, gallai fod adegau pan nad yw hyn yn bosibl. Fodd bynnag, rydym yn cefnogi gweithwyr sy'n dymuno gweddïo yn y gwaith i gydbwyso eu credoau unigol ag anghenion gweithredol. Ewch i'n [tudalen we cydraddoldeb](#).

Symud ymlaen o fod yn Ddiffoddwr Tân Ar-Alwad i DdSG

Fydd dod yn Ddiffoddwr Tân Ar-Alwad yn golygu bod hi'n haws i mi ddod yn Ddiffoddwr Tân Dyletswydd Gyflawn?

Bydd dod yn Ddiffoddwr Tân Ar Alwad yn rhoi'r *profiad a'r wybodaeth* i chi i ddod yn ddiffoddwr tân gweithredol. Ni fydd dod yn Ddiffoddwr Tân Ar Alwad yn golygu o reidrwydd y byddwch chi'n cael mynediad. Bydd proses recriwtio i ddilyn.



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

Proses Recriwtio Diffoddwyr
Tân Dyletswydd Gyflawn
2022

Trosglwyddedigion

Ydych chi'n derbyn ceisiadau gan ddiffoddwyr tân sy'n drosglwyddedigion o wasanaethau eraill?

Ydyn, fodd bynnag, mae hon yn broses recriwtio a gynhelir ar wahân i'n hymgyrch ar gyfer y System Ddyletswydd Gyflawn. Dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol ac edrychwch ar ein gwefan i gael y newyddion diweddaraf. I fod yn gymwys i wneud cais am ein Proses Drosglwyddedigion, rhaid eich bod chi'n gymwys mewn rôl diffoddwr tân parhaol cyfredol.